

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir y Fflint (Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf.)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd Sif y Fflint i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Sir y Fflint fodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir y Fflint 9 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol, ac mae'n un o ddim ond pedwar awdurdod i gyrraedd y lefel hon.

Caiff gwasanaethau llyfrgell yn Sir y Fflint eu darparu gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf, ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi atgyfnerthu ei sefyllfa'n fras o dan ei fodel gweithredu newydd yn 2018/19, gyda gwelliannau nodedig yn deillio o waith wedi'i dargedu i ddatblygu ei raglen digwyddiadau a gweithgareddau. Mae heriau'n ymwneud â lefelau staffio isel a chyfyngiadau ariannol yn parhau, gyda'r cyfyngiadau cyllidebol eleni wedi'u lliniaru gan fuddsoddiad traddodiadol gryf Sir y Fflint yn ei chronfa lyfrau a chynllunio strategol gofalus. Disgwylir lleihad pellach yn y dyraniad cyllidebol cyffredinol yn 2019/20, yn unol â chytundeb ariannu Aura â Chyngor Sir y Fflint, ond nodir y dylai'r lefelau ariannu sefydlogi o fis Ebrill 2020 ymlaen.

- Mae pob man gwasanaeth yn parhau i ddarparu cymorth da ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles. Mae 97% o oedolion yn dweud bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ar y cyfan.
- Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi cynyddu, ar ôl dirywiad sylweddol yn y perfformiad yn 2017/18, ond mae lefelau y pen islaw'r lefel ganolrifol i Gymru.
- Mae nifer y digwyddiadau / gweithgareddau a gynigir wedi cynyddu'n sylweddol yn 2018/19, gyda datblygiadau o ran hyn wedi'u targedu ym mhob un o'r llyfrgelloedd; o ganlyniad, mae'r niferoedd sy'n mynychu wedi mwy na dyblu, gyda pherfformiad y pen bellach uwchlaw'r lefel ganolrifol.
- Mae'r defnydd cyffredinol wedi aros yr un fath fwy neu lai, gyda rhai meysydd yn gwella ychydig, ac eraill yn dirywio; mae'r perfformiad yn gyffredinol yn dal ar y lefel ganolrifol neu islaw.
- Yn sgil cyfyngiadau cyllidebol, mae'r gyllideb ar gyfer deunyddiau wedi gostwng yn 2018/19, ond erys y perfformiad o ran hyn ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ac mae'r gwasanaeth yn dal i gyflawni'r targedau ar gyfer derbyniadau cyffredinol a derbyniadau Cymraeg.
- Mae lefelau staffio cyffredinol a phroffesiynol wedi aros yr un fath fwy neu lai, ond maent yn dal ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, a thipyn yn is na'r targedau a bennwyd.
- Roedd cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng, a bwriedir cwtdogi ar gyllidebau ymhellach yn 2019/20, yn unol â chytundeb cyllido Aura â Chyngor Sir y Fflint.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir y Fflint yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, gan weithio'n unol ag amcanion strategol ei riant-gorff Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf. Ymhlith y prif fentrau yn 2018/19 mae datblygu a lansio cynllun cyfathrebu ar gyfer y gwasanaeth, sy'n cefnogi'r gwasanaethau craidd a gynigir ym mhob llyfrgell. Mae Aura hefyd wedi buddsoddi mewn gwaith adferol wedi'i drefnu ar ei lyfrgelloedd ac mae wrthi'n cwblhau adolygiad o asedau strategol er mwyn llywio'r gwaith cynllunio hirdymor ar gyfer ei stoc adeiladau. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu'n eang â'i ddefnyddwyr, gan ddefnyddio adborth o arolygon o ddefnyddwyr a sylwadau i lywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'u datblygu.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir y Fflint yn cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	✓	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	✓	

DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Bu mân newid ym mherfformiad Sir y Fflint o gymharu â 2017/18, ac nid yw'n cyflawni targed DA 9 ar gyfer gwario ar ddeunyddiau mwyach, ond cyrhaeddir y safon o hyd ar sail yr eitemau a gaffaelwyd y pen. Mae'r gwasanaeth bellach yn cyflawni'r targedau ar gyfer gwariant cyfrannol a gwariant y pen yn DA 10 (adnoddau Cymraeg).

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Sir y Fflint ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018, gyda gwell adborth ar ddatblygu sgiliau a chymorth ar gyfer iechyd a lles. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn methu o hyd â nodi ffigurau ar gyfer gwerthusiad defnyddwyr o'r hyfforddiant a gynigir ganddo.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=9/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	86%	=10/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	dd/b		80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir y Fflint dair astudiaeth achos o'r fath:

- Sesiynau rhwng y Cenedlaethau – yn gweithio gyda chyfleuster gofal cyfagos i'r henoed er mwyn cynnig sesiynau Rhigymau'r Nadolig ar ei safleoedd. Roedd hyn yn fuddiol i deuluoedd, gan roi cyfle i blant ryngweithio â phobl hŷn, ac roedd y

preswylwyr yn enwedig wedi mwynhau bod yng nghwmni'r plant. Mae'r ymweliadau bellach yn digwydd drwy gydol y flwyddyn gyda phreswylwyr hefyd yn mynychu sesiynau yn y llyfrgell.

- Cyflogadwyedd a Sgiliau - effaith lleoliad gwaith a gynorthwyr mewn llyfrgell ar un gwirfoddolwr ag anabledau dysgu. Drwy wirfoddoli'n rheolaidd mae wedi magu'r hyder i gyflawni nifer o dasgau, gan ddod yn fwy annibynnol, ac mae wedi dod yn rhan werthfawr o'r tîm.
- Iechyd a Lles – darparu rhaglen o ddigwyddiadau / gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd a lles, gyda'r nod o fod yn hygyrch iawn i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r gweithgareddau yn syml ac yn gost isel – clybiau jig-sos, grwpiau gwau a chlonc, clybiau gemau bwrdd – ond maent wedi cael effaith enfawr, gan gynnig rhyngweithio cymdeithasol a mwynhad i gyfranogwyr annibynnol a gofalwyr.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir y Fflint ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	83%	=6/15	24%	82%	96%	64%
c) iechyd a lles	79%	5/15	33%	62%	94%	46%
d) lle diogel a chroesawgar	99%	=2/15	90%	97%	100%	94%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=6/14	81%	91%	98%	89%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/14	93%	99%	100%	96%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	91%	=4/13	65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	97%	=7/14	93%	97%	99%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.3	=6/13	8.5	9.3	9.5	10.0
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	28	=13/22	13	30	208	14
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	171	13/22	15	199	433	118
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	309	9/22	91	295	689	140
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,992	11/22	2,596	3,969	7,170*	3,998
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	393	19/22	345	885	2,205	334
c) benthyccwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	116	17/22	58	150	251	139

DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	504	14/22	95	602	1,424	757
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	7	20/22	5	10	14	7
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	14%	22/22	14%	25%	63%	14%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	64	6/21	3	30	214	61
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,607	10/21	90	1,477	9,806	1,057
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£9,142	19/22	£7,181	£12,145	£19,449	£9,319
b) % ar staff	60%	13/22	47%	62%	78%	57%
% ar adnoddau gwybodaeth	21%	1/22	8%	13%	21%	25%
% ar offer ac adeiladau	10%	4/22	0.4%	4%	25%	11%
% ar gostau gweithredol eraill	9%	16/22	0.3%	16%	37%	6%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£0	=17/22	£0	£467	£8,829	£0
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£1.59	=14/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.69
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.06%	19/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.02%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.56%	11/20	0.00%	0.28%	7.99%	3.02%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl. ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Sir y Fflint ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018, gyda'r canfyddiadau yn adlewyrchu'n dda ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles hefyd. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw i ddefnyddwyr wedi cynyddu, ar ôl lleihad sylweddol yn 2017/18, ac mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gwella gryn dipyn, ond yn y naill achos a'r llall mae'r perfformiad islaw'r lefel ganolrifol i Gymru. Byddai ychydig fyfyrrio ar y ffactorau sy'n cyfrif am hyn yn fuddiol yn y datganiad.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir y Fflint yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Gofynnodd y gwasanaeth i bob llyfrgell ymestyn yr amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhelir yn 2018/19; cynhaliwyd cyfanswm o

2,614 o ddigwyddiadau (o gymharu ag 829 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf) a oedd yn diwallu amrywiaeth o anghenion defnyddwyr. O ganlyniad, mae'r niferoedd sy'n mynychu a gofnodwyd ar gyfer DA 6 wedi mwy na dyblu ers 2017/18, gyda pherfformiad y pen o'r boblogaeth uwchlaw'r lefel ganolrifol bellach. Mae defnydd mewn meysydd eraill wedi aros yr un fath fwy na lai, gyda chynnydd bach yng nghyfanswm yr ymweliadau ac aelodaeth llyfrgell, a mwy o ymweliadau â gwefan y gwasanaeth a lawrlwythiadau electronig (tuedd a welir ledled Cymru). Fodd bynnag, mae nifer y llyfrau (oedolion a phlant) a fenthycir wedi lleihau, ac yn y rhan fwyaf o feysydd o ddefnydd mae'r perfformiad ar y lefel ganolrifol neu islaw.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae toriadau cyllidebol wedi effeithio ar y gronfa lyfrau yn 2018/19, ond erys perfformiad y pen ymhlith yr uchaf yng Nghymru, gyda Sir y Fflint yn un o bum awdurdod yn unig i gyflawni'r targed ar gyfer nifer yr eitemau a gaffaelwyd (DA 9). Mae'r gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi'n gryf mewn adnoddau Cymraeg ac mae'n cyflawni'r ddau darged o ran hyn (DA 10). Mae hefyd yn bodloni'r gofynion o ran cyflenwi ceisiadau, gan nodi bod ceisiadau'n cael eu cyflenwi yn y sir, a hynny ar lefel well. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol yn parhau ar yr un lefel â 2017/18, ond mae'r defnydd a wneir ohonynt yn dal ar y lefel isaf yng Nghymru. Nodir bod y gwasanaeth wedi uwchraddio ei ddarpariaeth o Wi-Fi yn 2018/19, ac mae'n un o'r ychydig wasanaethau sy'n cynnig argraffu Wi-Fi; erys TGCh yn faes blaenoriaeth i'w ddatblygu.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Unwaith eto, mae lefelau staffio cyffredinol a phroffesiynol wedi aros yr un fath fwy neu lai, ond mae staffio'r gwasanaeth y pen yn dal ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac nid yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r naill darged staffio na'r llall. Mae angen i swyddi rheoli gael eu llenwi gan y rhai sydd â chymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i recriwtio i swyddi gwag, ac ychwanegwyd ail swydd prentis at swyddi'r staff yn 2018/19. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran amser y staff a dreulir ar ddatblygiad proffesiynol. Mae cyfraniad y gwirfoddolwyr wedi cynyddu, gyda 64 o unigolion yn cyfrannu 25 o oriau yr un i'r gwasanaeth ar gyfartaledd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng, yn unol â chytundeb cyllido Aura â'r cyngor, gyda chyllidebau'r gwasanaeth ymhlith yr isaf yng Nghymru. Nodir bod y gyllideb wedi cael ei gostwng drwy gwtogi ar y gronfa lyfrau yn bennaf, lle mae gwariant wedi bod yn dda yn draddodiadol, ac ni ragwelir rhagor o gwtogi y tu hwnt i fis Ebrill 2020. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi lleihau ers 2017/18; er bod Sir y Fflint yn dal i gyflawni'r targed o ran hyn, mae'n cofnodi un o'r lefelau uchaf o oriau agor heb staff o ganlyniad i'r penderfyniad i gyd-leoli rhai canghennau â chyfleusterau hamdden, lle mae darpariaeth hunanwasanaeth ar gael y tu allan i oriau craidd.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaeth Sir y Fflint yn parhau i nodi'r ffordd y mae'n cefnogi blaenoriaethau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ac yn cyfrannu atynt, ac yn nodi bod ei gynllun cyfathrebu ar gyfer y gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y nodau strategol hyn a'r Cynigion Cyffredinol i

lyfrgelloedd, wedi cael ei gyflwyno. Rhoddir enghreifftiau o ddarparu drwy weithio mewn partneriaeth, cefnogi dysgu a datblygu, a chydlyniant a chydnerthu cymunedol. Nodir hefyd rôl casgliadau a gwasanaethau i hyrwyddo iechyd a lles, ymwneud diwylliannol, a chefnogaeth i'r Gymraeg.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Aura yn nodi'r heriau ariannol parhaus a wynebir gan y gwasanaeth. Mae gostyngiad arall o 10% yn y gyllideb ar gyfer adnoddau wedi'i bennu ar gyfer 2019/20, yn unol â chytundeb cyllido Aura â'r cyngor, ond ni fwriedir i ostyngiadau o'r fath barhau y tu hwnt i fis Ebrill 2020. Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn ceisio ymestyn ei gyrraedd a'r defnydd a wneir ohono, gyda thargedau perfformiad ymestynnol, a dull sylfaenol o ddatblygu darllenwyr a hyrwyddo'r stoc yn 2019. Mewn ymateb i adborth cwsmeriaid ar ei wasanaethau ar-lein a TGCh, bydd datblygu'r meysydd hyn hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae Strategaeth Effaith Gymdeithasol wedi cael ei chomisiynu ar gyfer y sefydliad, er mwyn rhoi gwell tystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i fywydau pobl, ac fel model ar gyfer symud y gwasanaeth ymlaen.

6 Casgliad

Caiff gwasanaethau llyfrgell yn Sir y Fflint eu darparu gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf, ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi atgyfnerthu ei sefyllfa'n fras o dan ei fodel gweithredu newydd yn 2018/19, gyda gwelliannau nodedig yn deillio o waith wedi'i dargedu i ddatblygu ei raglen digwyddiadau a gweithgareddau. Mae heriau'n ymwneud â lefelau staffio isel a chyfyngiadau ariannol yn parhau, gyda'r cyfyngiadau cyllidebol eleni wedi'u lliniaru gan fuddsoddiad traddodiadol gryf Sir y Fflint yn ei chronfa lyfrau a chynllunio strategol gofalus. Disgwylir lleihad pellach yn y dyraniad cyllidebol cyffredinol yn 2019/20, yn unol â chytundeb ariannu Aura â Chyngor Sir y Fflint, ond nodir y dylai'r lefelau ariannu sefydlogi o fis Ebrill 2020 ymlaen.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.